# SL(5)599 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") a'r cyfyngiadau yn sgil y coronafeirws yng Nghymru. Yn benodol, mae'r Rheoliadau yn caniatáu:

- i hyd at bedair aelwyd uno â'i gilydd mewn aelwyd estynedig. Gallai hyn olygu bod dwy aelwyd estynedig bresennol yn uno â'i gilydd, neu fod pedair aelwyd nad ydynt eisoes mewn trefniant o'r fath yn ffurfio aelwyd estynedig (neu'n ymuno ag aelwyd estynedig bresennol).
- i bobl ymgynnull o dan do (mewn grŵp o hyd at 30 o bobl) ar gyfer derbyniad priodas bach, te angladd neu wylnos, yn gysylltiedig â seremoni briodas neu bartneriaeth sifil neu angladd a gynhelir ar neu ar ôl 22 Awst 2020.
- i nifer fach o ddigwyddiadau awyr agored ar gyfer hyd at 100 o wylwyr gael eu cynnal fel rhan o gynllun peilot, gyda chytundeb penodol Gweinidogion Cymru.

Yn ogystal, diwygio reoliad 18(9B) (Camau Gorfodi) o'r prif Reoliadau i'w gwneud yn glir nad yw gwybodaeth ac atebion a roddir o dan reoliad 18(7A) yn dderbyniol mewn unrhyw achos ac eithrio achos o dan y prif Reoliadau.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus nac asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi "o ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys…ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn" a bod y "Prif Weinidog, ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau". "Nododd y Prif Weinidog, yn ei gynhadledd i'r wasg ar 14 Awst, y bwriad i wneud y newidiadau a gyflawnir drwy'r Rheoliadau a wneir heddiw, os byddai'r amgylchiadau'n caniatáu hynny. Cafodd y newidiadau arfaethedig hyn gyhoeddusrwydd eang wedyn. Cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud yn ei gynhadledd i'r wasg ar 21 Awst."

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**26 Awst 2020**